



# Canllawiau Ymarfer BDPGC Chwilyfrydedd Proffesiynol

## 1.0. Chwilfrydedd Proffesiynol

- 1.1. Chwilfrydedd proffesiynol yw'r gallu a'r sgil i gyfathrebu er mwyn archwilio a deall beth sy'n digwydd o fewn teulu yn hytrach na thybio neu dderbyn pethau'n arwynebol.
- 1.2. Mae wedi cael ei ddisgrifio fel yr angen i ymarferwyr ymarfer '**ansicrwydd parchus**' - drwy gymhwysu gwerthusiad beirniadol i unrhyw wybodaeth maent yn ei derbyn a chadw meddwl agored. Yn y maes diogelu, defnyddir y term 'ansicrwydd diogel' i ddisgrifio dull sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch ond sy'n cymryd gwybodaeth newidiol a safbwyntiau gwahanol i ystyriaeth gan gydnabod efallai nad oes modd cyflawni sicrwydd.
- 1.3. Er mwyn bod yn broffesiynol chwilfrydig, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ymarferwyr:
  - feddwl 'y tu allan i'r blwch', y tu hwnt i'w rôl broffesiynol arferol, ac ystyried amgylchiadau teuluoedd mewn modd cyfannol.
  - dangos parodrwydd i ymgysylltu â phlant, oedolion a'u teuluoedd neu ofalwyr.
- 1.4. Mae llawer o bobl wedi ysgrifennu am bwysigrwydd chwilfrydedd yn ystod ymweliadau â chartrefi a'r angen am berthnasoedd unigryw ac agos lle gallwn weld, clywed a chyffwrdd eu profiadau bob dydd gwirioneddol a chymryd camau i gyflawni agosatrwydd tebyg gyda rhieni neu ofalwyr.
- 1.5. Bydd ymarferwyr yn aml yn cysylltu â phlentyn, unigolyn ifanc, oedolyn neu eu teulu pan fyddant yn wynebu argyfwng neu'n agored i niwed. Mae'r rhyngweithiadau hyn yn gyfleoedd hanfodol ar gyfer diogelu. Er mwyn ymateb i'r cyfleoedd hyn, mae'n rhaid meddu ar y gallu i gydnabod (neu nodi arwyddion o) fregusrwydd a risgiau posibl neu wirioneddol o niwed, cynnal chwilfrydedd proffesiynol mewn modd agored (neu ymchwilio'n ddyfnach), a deall cyfrifoldeb eich hunan a gwybod sut i weithredu.
- 1.6. Anaml iawn y bydd plant yn arbennig, ac oedolion o bryd i'w gilydd, yn datgelu eu bod yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso i ymarferwyr, ac os ydyn nhw, bydd hyn yn aml drwy ymddygiad neu sylwadau anarferol. Mae hyn yn gwneud y gwaith o adnabod camdriniaeth ac esgeulustod yn anodd i weithwyr proffesiynol ar draws asiantaethau. Mae bob amser yn well helpu cyn gynted â phosibl, cyn i bethau waethygu. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i bob asiantaeth ac ymarferydd weithio gyda'i gilydd - y cam cyntaf yw bod yn broffesiynol chwilfrydig.
- 1.7. Bydd gweithwyr proffesiynol chwilfrydig yn treulio amser yn ymgysylltu â theuluoedd yn ystod ymweliadau. Byddant yn gwybod bod arsylwi ac ystyried siarad, chwarae a chyffwrdd yn bwysig. Peidiwch â chymryd yn ganiataol eich bod yn gwybod beth sy'n digwydd mewn cartref teulu - gofynnwch gwestiynau a gofynnwch am eglurhad os nad ydych yn siŵr. Peidiwch â bod ofn gofyn

cwestiynau i deuluoedd, a gwnewch hynny mewn modd agored er mwyn iddynt wybod eich bod yn ceisio cadw'r plentyn neu'r oedolyn yn ddiogel, nid eu beirniadu. Byddwch yn agored i'r annisgwyl, gan ymgorffori gwybodaeth nad yw'n cefnogi eich rhagdybiaethau cychwynnol yn eich asesiad o fywyd y plentyn neu'r oedolyn yn y teulu.

## **2.0. Dychmygu'r annychmygol**

2.1. Mae Diogelu'n gyfrifoldeb ar bawb, ac o ran ymarferwyr, mae gan bob asiantaeth rôl i'w chwarae i ddiogelu plant ac oedolion.

2.2. Mae'r ffactorau canlynol yn amlygu'r angen i ni gyd ymdrechu i wella chwilfrydedd a dewrder proffesiynol:

- mae barn a theimladau plant a rhai oedolion yn gallu bod yn anodd iawn eu deall
- nid yw ymarferwyr bob amser yn gwrando ar oedolion sy'n ceisio siarad ar ran plentyn neu oedolyn arall sydd o bosibl â gwybodaeth bwysig i'w rhannu
- gall rhieni neu ofalwyr atal ymarferwyr rhag gweld a gwrando ar blentyn neu oedolyn arall
- gellir twyllo ymarferwyr gyda straeon y mae arnom ni eisiau eu credu
- mae'n rhaid cydlynu gwaith amlasiantaeth effeithiol
- mae angen arbenigedd, hyder, amser a chryn dipyn o egni emosiynol i ymdrin â rhieni a gofalwyr (a chydweithwyr) heriol.

## **3.0. Cyfathrebu - yr allwedd i Ymarfer Amlasiantaeth Da**

### **Awgrymiadau Gwych:**

#### Gwrando:

- siaradwch gydag ymarferwyr eraill yn rheolaidd - peidiwch ag aros am gyfarfodydd
- wrth asesu a rheoli achosion, mae mewnbwn gan ddwy, tair neu bedair ffynhonnell yn well nag un
- Weithiau, y berthynas bwysicaf i ymddiried ynnddi hi ydi'r berthynas gyda chi eich hunan - os oes risg nad ydych chi'n teimlo sy'n cael ei rheoli ac nad oes neb yn gwrando arnoch chi, sut ydych chi'n uwchgyfeirio hyn?
- ceisiwch fod yn hyblyg gyda chyfarfodydd i fodloni'r ymarferwyr
- peidiwch â defnyddio jargon - siaradwch gyda chydweithwyr a theuluoedd gan ddefnyddio iaith y maent yn ei deall
- ceisiwch gynnwys teuluoedd mewn penderfyniadau am eu bywydau
- byddwch yn ystyriol o duedd optimistaidd bersonol (gobaith ofer) wrth adolygu cynnydd plant
- sicrhewch fod cynlluniau gofal yn amlasiantaeth ac yn bodloni amcanion CAMPUSACH
- gall offer hunanasesu hyrwyddo trafodaethau gonest
- dylai rheolwyr tîm fynychu hyfforddiant ar gyfer darparu goruchwyliaeth effeithiol ac arfer myfyriol i reoli diogelu

- defnyddiwch sicrwydd ansawdd a fframwaith archwilio megis safonau ansawdd i adolygu cofnodion achos i gefnogi arferion da sy'n cadw plant yn ddiogel ac yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus staff.

#### Rhannu gwybodaeth:

- er mwyn cefnogi dulliau cyfathrebu da, dylid sicrhau trefniant rhannu gwybodaeth ffurfiol rhwng bob asiantaeth gan gytuno ar y pwrpas a'r cyd-destun mewn perthynas â cheisio a rhannu gwybodaeth
- ni ddylai ofnau am beryglu'r berthynas â'r teulu eich rhwystro rhag rhannu gwybodaeth a dylid dilyn egwyddorion y 'saith rheol aur ar gyfer rhannu gwybodaeth' a rhannu gwybodaeth yn brydlon gan gynnwys y teulu lle nad yw hynny'n cynyddu'r risg
- dylid rhoi digon o rybudd i bob asiantaeth gysylltiedig ynghylch cyfarfodydd adolygu achosion i'w galluogi i ddarparu adroddiadau ac adborth i gyfrannu at asesiadau ac adolygiadau parhaus o gynnydd y teulu
- dylai grŵp o ymarferwyr gadw mewn cysylltiad â'i gilydd a bod yn hyblyg gydag amseroedd cyfarfodydd i sicrhau bod gymaint o ymarferwyr â phosibl yn gallu bod yn bresennol.

#### **4.0. Sgysiau anodd gyda Rhieni / Gofalwyr**

4.1. Pedwar ffactor i'w hystyried wrth baratoi ar gyfer sgwrs anodd gyda rhiant neu ofalwr yw:

1. Egwyddorion - sy'n ategu at ddiogelu plant
2. Cynllunio - sut i gynllunio neu baratoi
3. Y sgwrs - pethau i'w hystyried wrth gael sgwrs
4. Enghreifftiau - cwestiynau ac awgrymiadau agored.

#### **5.0. Chwilfrydedd Proffesiynol ac Ymarfer Diogelu sy'n Gymwys yn Ddiwylliannol**

- 5.1. Mae'n bwysig felly bod ymarferwyr yn sensitif i batrymau teulu a ffyrdd o fyw gwahanol a gall patrymau magu a gofalu am blant amrywio ar draws grwpiau hil, ethnig a diwylliannol gwahanol. Mae'n rhaid iddynt hefyd fod yn glir nad yw cam-drin plant ac oedolion am resymau crefyddol neu ddiwylliannol yn dderbyniol.
- 5.2. Mae'n rhaid i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc, oedolion diamddiffyn a'u rhieni, gofalwyr neu deuluoedd y mae eu ffydd, diwylliant, cenedl a'u hanes diweddar o bosibl yn wahanol iawn i'r diwylliant mwyafrifol, fod yn broffesiynol chwilfrydig a chymryd cyfrifoldeb personol dros gasglu digon o wybodaeth (neu geisio cyngor) am ddiwylliant a/neu ffydd arbennig y mae'r plentyn, unigolyn ifanc, oedolyn a'u teulu neu ofalwyr yn ei ddilyn yn eu bywyd bob dydd i lywio eu gwaith.
- 5.3. Dylai ymarferwyr fod yn chwilfrydig am sefyllfaoedd neu wybodaeth sy'n codi yn eu gwaith, gan ganiatáu i'r teulu egluro eu safbwynt nhw yn ogystal ag

ymchwilio i bethau drwy drafod gydag ymarferwyr eraill, neu drwy ymchwilio'r gronfa dystiolaeth. Gall enghreifftiau o hyn gynnwys agweddau tuag at, a derbyniad o, wasanaethau e.e. iechyd, dewisiadau dietegol, darpariaeth ysgol neu bresenoldeb yn yr ysgol.

- 5.4. Mewn rhai achosion, mae amharodrwydd i gael mynediad at gefnogaeth yn deillio o ddyhead i gadw bywyd teuluol yn breifat. Mae nifer o gymunedau'n ofni y bydd ymarferwyr gwaith cymdeithasol yn mynd â'r plant i ffwrdd. Mae'n bosibl y bydd ganddynt farn negyddol am wasanaethau cymorth yn deillio o'u cysylltiad cyntaf drwy'r system fewnfudo, ac i rai cymunedau - yn arbennig y rhai â statws mewnfudo ansicr - diffyg ymddiriedaeth yn y wladwriaeth yn deillio o'u profiadau yn eu gwlad tarddiad.
- 5.5. Mae'n rhaid i ymarferwyr gymryd cyfrifoldeb personol dros ddefnyddio gwybodaeth gwasanaethau arbenigol. Bydd gwybod am a defnyddio gwasanaethau sydd ar gael yn lleol i ddarparu mewnbyn mewn perthynas â ffydd a diwylliant i wasanaethau atal, cymorth ac adsefydlu ar gyfer y plentyn, pobl ifanc neu oedolion (a'u teulu) yn cefnogi'r ymarfer.
- 5.6. Mae hyn yn cynnwys:
- gwybod pa asiantaethau sydd ar gael
  - cael manylion cyswllt wrth law
  - amseru ceisiadau am gefnogaeth a gwybodaeth arbenigol yn briodol i sicrhau bod asesiadau, cynlluniau gofal ac adolygiadau'n gadarn ac yn gyfannol.

## **6.0. Chwilfrydedd Goruchwyliaeth ac Ymarfer Diogelu**

- 6.1. Ar gyfer nifer o asiantaethau, mae goruchwyliaeth effeithiol yn ffordd o wella penderfyniadau, atebolrwydd, a chefnogi datblygiad proffesiynol ymhlith ymarferwyr. Mae goruchwyliaeth hefyd yn gyfle i gwestiynu ac archwilio dealltwriaeth o achos.
- 6.2. Gall goruchwyliaeth grŵp a Grwpiau Ymarfer Myfyriol fod yn fwy effeithiol i hyrwyddo chwilfrydedd ac ansicrwydd diogel, gan y gall ymarferwyr ddefnyddio'r manau hyn i feddwl am eu beirniadaeth a'u harsylwadau eu hunain. Mae hefyd yn caniatáu timau i ddysgu o brofiadau ei gilydd, ac mae'n bosibl y bydd materion a ystyriwyd mewn un achos hefyd yn berthnasol mewn llwythi gwaith eraill.

Arferion da:

- rhoi dadleuon yn erbyn
- cyflwyno damcaniaethau amgen
- cyflwyno achosion o safbwynt y plentyn, unigolyn ifanc, oedolyn neu aelod arall o'r teulu.

## **7.0. Lleoliadau Gofal a Chwilfrydedd Proffesiynol**

- 7.1. Mae'n bosibl mai ymarferwyr lleoliadau gofal sydd yn y sefyllfa orau i asesu oedolion neu blant gan eu bod yn cysylltu â'r oedolyn neu'r plentyn yn rheolaidd. Mae ymarferwyr yn gallu gweld unrhyw newid mewn ymddangosiad, ymddygiad, bywiogrwydd neu awch am fwyd a monitro lles yr oedolyn neu'r plentyn; gallant weithredu fel 'llygaid' ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â nhw.
- 7.2. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i wirfoddolwyr a gweithwyr sy'n cynnal grwpiau a chlybiau i blant, pobl ifanc neu oedolion.
- 7.3. Mae nifer o enghreifftiau o staff gofal yn ymateb i bryderon gan arddangos chwilfrydedd proffesiynol ac ymwybyddiaeth o gamdriniaeth a risg cronrus.
- 7.4. Mae bod yn broffesiynol chwilfrydig yn galluogi ymarferwyr i herio gofalwyr neu rieni a bregusrwydd neu risg oedolyn neu blentyn mewn modd gwrthrychol, proffesiynol a chefnogol. Gall cyflawni'r cydbwysedd hwn fod yn heriol.

## **8.0. Cam-drin Domestig a Chwilfrydedd Proffesiynol**

- 8.1. Mae nifer o Adolygiadau Dynladdiad Domestig ac Adolygiadau Ymarferwyr Addysg yn cyfeirio at ddiffyg chwilfrydedd proffesiynol neu ansicrwydd parchus. Mae'n rhaid i ymarferwyr ddefnyddio dull anwahaniaethol ac archwilio'r problemau i ffurfio barn sy'n arwain at weithredoedd i ymdrin â theuluoedd.
- 8.2. Mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol yn deall cymhlethdod cam-drin domestig a'u bod yn chwilfrydig am yr hyn sy'n digwydd ym mywyd y plentyn, oedolyn a'r cyflawnwr.
- 8.3. Mae chwilfrydedd proffesiynol yn llawer mwy tebygol o ddatblygu pan fydd ymarferwyr yn:
  - cael eu cefnogi gan hyfforddiant o ansawdd uchel i'w helpu i ddatblygu.
  - cael mynediad at gefnogaeth a goruchwyliaeth rheoli da.
  - rhoi eu hunain yn esgidiau'r plentyn a/neu'r oedolyn i ystyried y sefyllfa o'u safbwynt nhw
  - parhau i fod yn ddiwyd wrth weithio gyda'r unigolyn a'u teulu, datblygu perthnasoedd proffesiynol i ddeall beth sydd wedi digwydd a'i effaith ar bob aelod o'r teulu
  - ceisio gweld bob parti ar wahân.
- 8.4. Gall gweithio gyda theuluoedd sy'n profi cam-drin a thrais domestig fod yn heriol ac ni ddylai ymarferwyr dderbyn popeth y maent yn ei glywed yn arwynebol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan nad ydych yn gweld dioddefwr ar ei ben ei hun, a dylem gadw llygad allan am yr ymddygiadau canlynol a ddylai sbarduno ein chwilfrydedd proffesiynol:
  - mae'r dioddefwr yn aros i'w phartner/bartner siarad yn gyntaf

- mae'r dioddefwr yn edrych ar ei phartner/bartner bob tro maent yn siarad, gan wirio ei (h)ymateb
  - mae'r dioddefwr yn ceisio cyfiawnhau unrhyw wrthdaro
  - y cyflawnwr a amheuir sy'n siarad fwyaf
  - mae'r cyflawnwr a amheuir yn rhoi arwyddion clir i'r dioddefwr, drwy symud y llygaid/corff, drwy fynegiant wynebol neu ar lafar, i'w rhybuddio
  - mae gan y cyflawnwr a amheuir amrywiaeth o gwynion am y dioddefwr, ac nid yw'r dioddefwr yn amddiffyn ei hun.

8.5. Os ydi'r ymarferydd yn sylwi ar yr arwyddion hyn, dylent geisio canfod ffordd o weld y dioddefwr yn unigol. Dylai ymarferwyr fod yn ystyriol o anghenion y bobl ifanc sydd o bosibl yn profi anghydraddoldeb a/neu drais yn eu perthnasoedd. Ni all ymarferwyr, ni waeth pa mor chwilfrydig ydynt, ddiogelu plant ac oedolion ar eu pennau eu hunain. Mae cam-drin domestig yn ymofyn ymateb amlasiantaeth ac mae gan deuluoedd a chymunedau rôl hanfodol i'w chwarae i ddiogelu plant ac oedolion.

## **9.0. Addysg a Chwilfrydedd Proffesiynol**

- 9.1. Mae'n bosibl mai staff addysg sydd yn y sefyllfa orau gadw llygad ar blant a phobl ifanc gan eu bod yn cysylltu â nhw bron bob dydd. Mae staff ysgol yn gallu gweld unrhyw newid mewn ymddangosiad, ymddygiad, bywiogrwydd neu awch am fwyd - ac yn monitro lles y plentyn i ryw raddau; gallant weithredu fel 'llygaid' ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â nhw.
- 9.2. Mae nifer o enghreifftiau da o staff addysg yn ymateb i bryderon gan arddangos chwilfrydedd proffesiynol ac ymwybyddiaeth o gamdriniaeth a risg cronus.
- 9.3. Mae bod yn broffesiynol chwilfrydig yn galluogi ymarferwyr i herio rhieni a diamddiffynedd neu risg plentyn mewn modd gwrthrychol, proffesiynol a chefnogol. Gall cyflawni'r cydbwysedd hwn fod yn heriol.
- 9.4. Mae'n gallu bod yn anodd i blant fynegi pryderon am eu lles eu hunain, felly mae gan ymarferwyr gyfrifoldeb i greu amgylchedd sy'n eu galluogi i wneud hynny. Dylai ysgolion fod yn ofalus o 'fyddardod sefydliadol', sy'n achosi i bobl beidio â rhoi sylw digonol i beth mae pobl ifanc yn ei ddweud, er enghraifft mewn perthynas â phryderon am eu ffrindiau.
- 9.5. Dylai gweithwyr proffesiynol (staff ysgol yn arbennig) fod yn chwilfrydig gan roi sylw digonol i achosion lle caiff gwybodaeth ei rhannu gan bobl ifanc.

## **10.0. Ymarferwyr Iechyd a Chwilfrydedd Proffesiynol**

- 10.1 Mae ymarfer awdurdodol a chwilfrydedd proffesiynol yn hanfodol ar gyfer ymateb i achosion cymhleth sy'n nodweddu Adolygiadau, lle gall risgiau a bregusrwydd waethygu dros amser.



10.2. Agwedd bwysig o ymarfer awdurdodol yw bod ymarferwyr yn cymryd cyfrifoldeb dros eu rôl yn y prosesau diogelu. Mae'n rhaid i ymarfer awdurdodol gael ei gefnogi gan ddiwylliant o oruchwyliaeth gefnogol ac mae gan arweinwyr a rheolwyr gwasanaeth gyfrifoldeb i faethu diwyllianau a gosod esiampl o arferion awdurdodol yn eu harweiniad drwy:

- annog ymarferwyr iechyd i gymryd cyfrifoldeb dros eu rôl yn y broses ddiogelu, gan barchu a gwerthfawrogi rôl eraill
- caniatáu i ymarferwyr ddefnyddio eu doethineb proffesiynol gan ystyried amgylchiadau achos arbennig
- annog her a chwilfrydedd proffesiynol mewn modd cefnogol.

10.3. Awgrymiadau i helpu gweithwyr iechyd proffesiynol i **Fod yn Chwilfrydig!**

- sicrhewch eich bod yn gwybod pwy yw'r gweithwyr proffesiynol dynodedig yn eich ardal ac yn deall eu rolau yn llawn - hyrwyddo arferion proffesiynol da a darparu cyngor ac arbenigedd ar gyfer cydweithwyr proffesiynol
- sicrhewch eich bod yn mynd i'r afael â diogelu o fewn eich goruchwyliaeth glinigol
- byddwch yn ymwybodol o'r adran berthnasol yng ngweithdrefnau diogelu Cymru
- byddwch yn ymwybodol o'r angen i ddangos 'chwilfrydedd proffesiynol'
- byddwch yn barod i gael eich herio yn ogystal â herio eich hunan o fewn eich cwrmpas proffesiynol
- Sicrhewch eich bod yn gwybod sut i uwchgyfeirio pryderon diogelu.

### **11.0. Yr Heddlu ac Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol a Chwilfrydedd Proffesiynol**

11.1 Mae datblygu a chynnal chwilfrydedd proffesiynol mewn modd agored yn cefnogi'r heddlu (a staff eraill) i ystyried y posibilrwydd o gamdriniaeth, a herio ac archwilio problemau gan gynnal dull gwrthrychol a chefnogol.

11.2. O ystyried bod asiantaethau cyfiawnder troseddol yn aml yn ymdrin ag achosion arbennig, ac yn goruchwyllo troseddwr unigol neu'n ymchwilio i droseddau unigol, mae perygl o edrych ar unigolyn neu deulu drwy un lens yn unig. Mae diogelu plant, pobl ifanc neu unigolion ifanc yn golygu deall eu bywydau a'u profiadau a gwneud penderfyniadau proffesiynol.

11.3. Mae'n annhebygol y bydd plant, pobl ifanc neu oedolion yn barod i roi gwybod am gamdriniaeth neu esgeulustod, mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i ymarferwyr fedru adnabod yr arwyddion a chreu amgylchedd gwranddo diogel a llawn ymddiriedaeth.

11.4. Mae enghreifftiau o'r heddlu a gweithwyr proffesiynol eraill yn canolbwyntio ar ymddygiadau troseddwr ac nid eu bregusrwydd.



- 11.5. Dylai Plant neu Oedolion sy'n mynd ar goll yn aml sbarduno chwilfrydedd proffesiynol swyddogion yr heddlu, mae'n hanfodol ystyried beth sy'n cymell eu hymddygiad.
- 11.6. Mae'n rhaid i ymarferwyr a rheolwyr fod yn chwilfrydig, amheus, a meddwl mewn modd beirniadol a systemig, gan weithredu mewn modd tosturiol.